BWRDD GWASANAETHAU LLEOL GWYNEDD AC YNYS MÔN

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Hydref, 2013 am 2.30yh yn Ystafell Pwyllgor 1, Cyngor Sir Ynys Môn

PRESENNOL:

Dafydd Evans (Cadeirydd), Grŵp Llandrillo Menai
Cyng. Ieuan Williams, Cyngor Sir Ynys Môn
Piers Bisson, Llywodraeth Cymru
Geraint George, Cyngor Gwynedd
Jerry Hunter, Prifysgol Bangor
Geraint Hughes, Gwasanaeth Tân ac Achub
Andrew Jones, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Richard Parry Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Peter Newton, Heddlu Gogledd Cymru
Trystan Pritchard, Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Sioned Rees, Llywodraeth Cymru
Harry Thomas, Cyngor Gwynedd
Wyn Thomas, Prifysgol Bangor
Bethan Russell Williams, Mantell Gwynedd

YN MYNYCHU:

Rhian Bayley-Hughes, Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Beverley Moore, Cyngor Sir Dinbych
Gareth Parry, Partneriaeth Gwynedd ac Ynys Môn
Dilwyn Williams, Cyngor Gwynedd

DRAFT

1. **YMDDIHEURIADAU**

Doris Adlam, Gwasanaeth Prawf
Cynghorydd Dyfed Edwards, Cyngor Gwynedd
Richard Fairhead, Gwasanaeth Tân ac Achub
Andy Jones, Gwasanaeth Prawf
Glyn Jones, Grŵp Llandrillo Menai
John R Jones, Medrwn Môn
Huw Jones, Cyngor Sir Ynys Môn
Aneurin Phillips, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

2. **ETHOL CADEIRYDD**

Agorwyd y cyfarfod gan Cyng. Ieuan Williams yn ei gapasiti fel Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn. Yn dilyn cyfarfod diwethaf y Bwrdd Gwasanaethau Lleol cytunwyd y byddai cadeirydd newydd yn cael ei ethol.

Fe gafodd Dafydd Evans ei enwebu fel cadeirydd y Bwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLL) Gwynedd ac Ynys Môn a chytunwyd i dderbyn y gadeiryddiaeth hyd at ddiwedd 2014.

3. **COFNODION O'R CYFARFOD A GYNHALIWYD 16eg GORFFENNAF 2013**

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16eg Gorffennaf 2013 yn gywir.

4. **DIWEDDARIAD PROSIECT ÔL TROED CARBON**

Cyflwynodd Dilwyn Williams adroddiad ar gyrhaeddiad blynyddol prosiect Lleihau Ôl Troed Carbon 2012/2013 a nodwyd cynnydd yn y ffrwd gwaith ynni o adeiladau, caffael a thrafnidiaeth. Nodwyd hefyd datblygiad y prosiect peilot newydd ymddygiad Cyngor Gwynedd ac Ysgol Seicoleg Prifysgol Bangor a allai ddatblygu'n sail i brosiectau tebyg yn holl sefydliadau'r Bwrdd.

Oherwydd y sefyllfa economaidd bresennol awgryma'r Bwrdd Prosiect y dylid newid statws y prosiect ac na ddylai bellach fod yn brosiect blaenoriaeth i'r Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

Awgrymwyd i barhau â'r prosiect ond newid y pwyslais gan gadw'r prosiect dan ymbarél y Bwrdd Gwasanaethau Lleol.

5. **DIWEDDARIAD AR DDATBLYGU'R CYNLLUN INTEGREDIG SENGL (CIS)**

Rhoddodd Trystan Pritchard (TP) trosolwg byr ar ddatblygiad y Cynllun Integredig Sengl (CIS) a'r amserlen arfaethedig ar gyfer ei gwblhau.

DRAFT

Rhoddwyd crynodeb ar y blaenoriaethau a gytunwyd gan y BGLL yn ei gyfarfod fis Gorffennaf 2013 sef: Yr Iaith Gymraeg; Diogelwch Cymunedol; Plant a Phobl Ifanc. Esboniwyd oherwydd amgylchiadau annisgwyl nid oedd yn bosib cynnig blaenoriaethau plant a phobol ifanc i'r Bwrdd ar hyn o bryd.

Ymhlith y trafodaethau cytunwyd y bydd y cardiau cymwys asesiad anghenion y ddwy sir yn ymddangos ar wefan y bartneriaeth; cytunwyd hefyd y bydd y CIS yn mynd drwy broses craffu'r ddwy sir.

Adnabuwyd y pwysigrwydd i gynnwys pwy fydd yn gyfrifol am yr allbynnau o fewn y CIS; a adnabuwyd fod yr amserlen i gwblhau'r CIS yn heriol.

Cytunwyd i aelodau'r Bwrdd cwrdd i drafod materion ymhellach.

6. CYNIGION PROSIECT I WIREDDU BLAENORIAETHAU

Cynigwyd Gareth Parry'r prosiectau canlyno i'r BGLL:

- Mannau awyr agored di-fwg
- Iechyd Corfforaethol
- Pwysau Iach
- Gweithredu Siarter Bwyd Gwynedd a llunio Siarter Bwyd ar gyfer Ynys Môn a
- Cyd-gynhyrchu

Mannau Agored Di-fwg

Esboniodd Gareth Parry (GP) fod y grŵp thematic Iechyd a Lles eisoes wedi gwneud y gwaith mapio. Cytunodd Andrew Jones y dylai'r BGLL cymryd perchnogaeth o'r cynnig hon.

Ymhlith y trafodaethau ynglŷn â faint o adnoddau fydd angen i weithredu'r prosiect; sut i fesur yr effaith yn effeithiol ayyb esboniwyd GP bod gwaith ataliol yn medru bod yn anodd ei fesur.

Gofynnodd y Bwrdd am fwy o dystiolaeth o ran addasrwydd yr ymyraethau yn lleol a hefyd mwy o ddadansoddi o ran cyfiawnhau'r cynigion

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Gareth Parry i weithredu**

DRAFT

Iechyd Corfforaethol
Cynigodd GP i greu Siarter Di-fwg i bartneriaid y BGLL er mwyn sicrhau cysondeb a gorfodi egwyddorion cyson o fewn polisïau ysmygu a esboniwyd y bydd cysondeb ymhlith y polisïau'r partneriaethau yn adio gwerth.

Cynigodd hefyd i'r BGLL ymrwymo i amryw o ymyraethau gan gynnwys annog cyfarfodydd cerdded drwy greu taflenni yn dangos llwybrau sydd yn cymryd hanner awr / awr i'w cerdded; cynnig cefnogaeth i staff sydd angen rheoli eu pwysau.

Gofynnodd y Bwrdd am fwy o dystiolaeth o ran addasrwydd yr ymyraethau yn lleol a hefyd mwy o ddadansoddi o ran cyfiawnhau'r cynigion

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Gareth Parry i weithredu**

Pwysau Iach
Cynigodd GP prosiect i ddylanwadu ar bolisïau cynllunio a hyrwyddo darpariaethau beicio a cherdded.

Oherwydd dyheadau'r BGLL cytunwyd Dafydd Evans, Harry Thomas, Bethan Jones a Richard Parry Jones i gwrdd er mwyn cael fwy o fanylder ynglŷn â disgwyliadau'r BGLL.

Gofynnodd y Bwrdd am fwy o dystiolaeth o ran addasrwydd yr ymyraethau yn lleol a hefyd mwy o ddadansoddi o ran cyfiawnhau'r cynigion

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Gareth Parry i weithredu**

Gweithredu Siarter Bwyd Gwynedd a llunio Siarter Bwyd ar Gyfer Ynys Môn.
Gofynnodd y Bwrdd am fwy o dystiolaeth o ran addasrwydd yr ymyraethau yn lleol a hefyd mwy o ddadansoddi o ran cyfiawnhau'r cynigion.

Mewn perthynas â'r holl gynigion, dywedodd Andrew Jones fod y tîm bartneriaeth wedi paratoi gwybodaeth ar y materion unigol yn dda iawn. Mynegodd fod mynd i'r afael ac atal ac ymyrraeth gynnar yn fater pwysig a phriodol ar gyfer y BGLL i ystyried. Fodd bynnag, mae'r bartneriaeth angen ystyried effaith a'r angen i fabwysiadu modelau newid ar raddfa fawr er mwyn ceisio mynd i'r afael â'r heriau yn ystod adegau o lymder. Roedd y Bwrdd Iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn hapus iawn i gefnogi a helpu'r tîm i ddod â blaenoriaethau ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth y gallai'r bartneriaeth ganolbwyntio ar. Dylai'r rhain gael eu canolbwyntio ar effaith mwyaf a bod mewn fframwaith clir o ganlyniadau a chost. Dylid targedu at ardaloedd o angen yn cael eu hystyried.

DRAFT

Pwysleisiodd ei bod yn bwysig hefyd bod y rhain yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau ehangach ynghylch â blaenoriaethau gofal integredig a'r BGLL i dderbyn cynigion ar draws llwybrau gofal iechyd.

GWEITHRED(AU) YN CODI:

- **Gareth Parry i weithredu**

Tlodi

Cyflwynodd TP bapur ar gynnig prosiect i gefnogi pobl mewn angen ariannol a thlodi. Cynigodd i wneud gwaith i fapio'r sefyllfa ar hyn o bryd.

Cytunwyd aelodau'r BGLL â'r cynnig.

7. TREFNIADAU LLYWODRAETHU DIOGELWCH CYMUNEDOL

Trafodwyd cyfrifoldeb partneriaeth Diogelwch Cymunedol am adolygiadau lladdiad domestig a chytunwyd y dylid y mater hwn cael ei lywodraethu gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Swyddogol.

8. CYNNIG I FABWYSIADU EGWYDDORION CENEDLAETHOL AR GYFER YMGYSYLLTU A'R CYHOEDD

Cytunwyd aelodau'r BGLL i fabwysiadu egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu.

9. UNRHYW FATER ARALL

Trafodwyd yr angen i'r BGLL adolygu gwaith partneriaeth plant a phobl ifanc oherwydd y swm o arian grant a hawlir ganddynt.

Cododd Peter Newton y mater o ddarpariaeth CCTV Ynys Môn gan fod Heddlu Gogledd Cymru yn deall y bydd yr awdurdod lleol yn gweld hyn fel maes i arbed arian. Ymatebodd Richard Parry Jones bod y mater hwn wedi ei rhestru ar gyfer ystyriaeth oherwydd yr amgylchiadau ariannol presennol.

<u>Dyddiad y cyfarfod nesaf</u>

2 o'r gloch ar Ionawr 29, 2014 Ystafell Cynhadledd 'Y Teras 3', Prif Adeilad Prifysgol Bangor

DRAFT